**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021 am 5.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd A Cox

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

**10 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**11 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**12 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2020 yn rhai cywir.

**13 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 28.09.20 – 17.01.21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau ynglŷn â thrwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 28 Medi 2020 i 17 Ionawr 2021.

**PENDERFYNWYD** nodi’r diweddariad.

**14 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**15 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 19.10.20 – 25.01.21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad i'r Aelodau, yn amlinellu'r gweithgarwch gorfodi diweddaraf gan gynnwys y diweddaraf am erlyniadau ac apeliadau ar gyfer y cyfnod 19 Hydref 2020 i 25 Ionawr 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**16 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 28.09.20 – 17.01.21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad i'r Aelodau yn amlinellu'r Trwyddedau a/neu'r Cofrestriadau wedi'u cyhoeddi dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 28 Medi 2020 i 17 Ionawr 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**